Teithiau Cerdded
yn Sir Gaerfyrddin
Llandeilo





GLAW neu HINDDA
mae'n werth dod yma

darganfodsirgar.com

1. Byddwch chi'n mynd heibio i Ffynnon Teilo ar yr ochr dde mewn cilfach o dan y fynwent. Ewch i mewn i'r eglwys er mwyn gweld arddangosfa ddiddorol ar Efengylau Llandeilo.

2. Ewch drwy'r gât i Ystâd Dinefwr (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Gwarchodfa Natur Coed Cadw. Cerddwch i fyny drwy'r coed.

Taith Gerdded Fyr - Trowch i'r dde ac i'r ramp a cherddwch i fyny'r llwybr drwy'r goedwig i Barc Penlan (5) ac yna defnyddiwch y grisiau ar y chwith. Dilynwch y llwybr drwy'r Parc ac i Heol Caerfyrddin.

Taith Gerdded Hir - Ewch yn eich blaen heibio i'r ramp a chadw i'r chwith ac i mewn i'r fynwent. Ewch allan drwy gât yr eglwys a throi i'r dde, ewch drwy gât arall a chadw i'r chwith ar hyd ffin y cae, ewch drwy'r ail gât ar y chwith ar gyfer y daith gerdded drwy'r goedwig. Dylech barhau ar hyd y llwybr hyd nes y byddwch yn cyrraedd llwybr cerrig mân gyferbyn â'r fainc. Trowch i'r chwith i ymweld â Chastell Dinefwr.

3. Gadewch y castell, trowch i'r chwith ar hyd y llwybr drwy'r goedwig, ewch i gyfeiriad maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r dderbynfa ar gyfer ymwelwyr. Beth am ymweld â Phlas Dinefwr (mae ffi i'w thalu yn y dderbynfa).

4. Cerddwch heibio i'r dderbynfa a throwch i'r dde gan ddilyn yr heol allan o'r parc. Ar yr ail droad yn yr heol, ewch ar hyd y llwybr bach ar y dde drwy'r goedwig yn ôl i Eglwys Llandyfeisant. (2) Defnyddiwch y ramp ar y chwith a cherddwch i fyny'r llwybr drwy'r goedwig i Barc Penlan.

5. Yn y parc, defnyddiwch y grisiau ar y chwith.

6. Ar Heol Rhosmaen, cadwch i'r dde drwy fwa bach yn ôl i'r maes parcio.

Cadwch lygad am...

- Eglwys Teilo Sant (1)
- Castell Dinefwr (3)
- Plas Dinefwr – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (4)
- Gwarchodfa Natur Coed Tre-gib ar Heol Bethlehem

Taith Gerdded Fyr: **Oddeutu 1.5 awr**
Taith Gerdded Hir: **Oddeutu 4.5 awr**

✓ **Taith Gerdded i'r Teulu**

! Nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau gwthio neu gadeiriau olwyn

Ardaloedd mwdlyd/gwlyb

Taith Gerdded Hir: **Oddeutu 2.5 cilometr**
Taith Gerdded Hir: **Oddeutu 8 cilometr**

I gael gwybodaeth ynghylch gweithgareddau, digwyddiadau, atyniadau, llefydd i fynd iddynt a llety, ewch i **www.darganfodsirgar.com** ☎ 01267 231557

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council